

Ymateb y Gweinidog Addysg i Adroddiad y Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru

Mis Medi 2019

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Ymateb y Gweinidog Addysg i Adroddiad y Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn croesawu'r cyfle i ymateb yn ein tro i ymateb y Gweinidog Addysg i Adroddiad Cyntaf Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru 2019.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

1. Cyflwyniad

- 1.1. Cafodd ymrwymiad y rhanddeiliaid ei amlygu yn y modd y bu i'r undebau, cymdeithasau, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru gyfrannu i'r ymgynghoriad yn ystod llinell amser oedd yn un neilltuol o dynn.
- 1.2. Rydym yn gwerthfawrogi'r ystyriaeth fanwl a roddwyd i'r sylwadau gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (y Corff) a'r Corff hwnnw yn yr un modd yn gweithio i amserlen oedd yn un heriol.
- 1.3. Yr ydym yn croesawu'r ffaith fod y Gweinidog Addysg yn cydnabod cyfraniad athrawon ac arweinwyr ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y proffesiwn yn y Gymru fodern. Mae'n ddyletswydd a chyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cyflog ac amodau gwaith teg i gadarnhau'r ymrwymiad hwnnw i addysgwyr, yn athrawon ac arweinwyr, yng Nghymru.
- 1.4. Cytuna UCAC â barn y Corff mai 'cam dechreuol yw hwn' – cam pwysig – ond bod llawer rhagor i'w wneud dros y blynyddoedd i ddod. Edrychwn ymlaen at fwrw'r maen i'r wal gyda'r camau pwysig nesaf.

2. Argymhellion y Corff/Ymateb y Gweinidog

Argymhellion y Corff:

A1 Argymhellwn y dylid cynyddu isafswm statudol y PYC 5% a chynyddu uchafswm statudol y PYC 2.4%

A2 Argymhellwn y dylid cynyddu'r isafswm statudol a'r uchafswm statudol ar gyfer pob ystod cyflog arall (YCU, YCGA ac athrawon heb gymhwyso), a phob lwfans, 2.4%

Ymateb y Gweinidog:

Rwyf...yn cefnogi argymhelliad IWPRB i gynyddu isafswm statudol y PYC 5% ac rwy'n bwriadu derbyn yr argymhelliad hwn.

Mewn egwyddor, rwy'n cefnogi argymhelliad IWPRB i gynyddu'r holl ystodau cyflog a lwfansau 2.4%, ond mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun ymrwymiad Llywodraeth Cymru i 'beidio ag achosi niwed' i'r proffesiwn yma yng Nghymru. Felly, rwyf o'r farn y dylid cyflwyno'r un cynnydd â'r un a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg sef 2.75%.

Barn UCAC:

- 2.1. Roedd UCAC, ar y cyd ag undebau eraill, wedi dadlau y byddai codiad cyflog o 5% i bawb wedi dechrau gwneud yn iawn am y niwed yn deillio o'r blynyddoedd o gyfyngiadau cyflog.
- 2.2. Felly rydym yn croesawu'r argymhelliad, a chefnogaeth y Gweinidog, i godiad cyflog o 5% i athrawon ar gam cyntaf y Brif Ystod Cyflog 5%.
- 2.3. Rydym yn siomedig na fu argymhelliad i weithredu'r codiad cyflog o 5% i weddill y gweithlu.
- 2.4. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r ffaith fod y Gweinidog wedi mynd tu hwnt i argymhelliad y Corff er mwyn sicrhau cynnydd o 2.75% (yn hytrach na 2.4%) i uchafswm statudol y Prif Ystod Cyflog, ac i'r holl ystodau cyflog a lwfansau, a gan hynny, sicrhau na fydd 'niwed' i'r proffesiwn yng Nghymru.
- 2.5. Y llynedd, bu i awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru gytuno i bob athro dderbyn y codiad cyflog a argymhellwyd, nid yn unig yr athrawon ar waelod ac ar frig yr ystod cyflog. Roedd hynny i'w groesawu'n fawr. Hyderwn mai'r un fydd y penderfyniad eleni.

2.6. Rydym wedi ein siomi'n fawr fel Undeb, nad yw'r Gweinidog wedi dal ar y cyfle i gadarnhau hyn yn statudol eleni. Byddwn yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori'r egwyddor hon yn statudol wrth fynd i'r afael â materion cyflogau yn ystod y cylch gorchwyl nesaf (gweler isod).

Argymhellion y Corff:

A3 Argymhellwn y dylid dileu'r pwynt disgresiynol presennol 6a, gan symud y rheini sydd ar 6a i uchafswm statudol newydd y PYC

A4 Mewn perthynas â phwyntiau graddfa disgresiynol M2-M5 ar y PYC:

- argymhellwn y dylid eu cynyddu i ddileu effaith andwyol y 1% o wahaniaeth sy'n berthynol i bwyntiau M1 ac M6 a gyflwynwyd drwy weithredu dyfarniad cyflog 2017; a'u
- cynyddu 2.4% ar ben hyn

A5 Argymhellwn y dylid cynyddu'r pwyntiau graddfa disgresiynol ar bob ystod cyflog arall (YCU, YCGA ac athrawon heb gymhwyso) 2.4%

A6 Argymhellwn y dylai'r holl awdurdodau lleol a'r holl ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru weithredu'r graddfeydd cyflog diwygiedig sy'n ymgorffori argymhellion A1-A5 (fel y nodir yn Atodiad B)

Ymateb y Gweinidog:

Mae argymhellion **A3** i **A6** yn ymwneud â materion sydd i'w hystyried gan gyflogwyr ac felly ni all Gweinidogion Cymru eu derbyn. Fodd bynnag, rwy'n argymhell y dylai cyflogwyr eu hystyried yn ofalus.

Barn UCAC:

- 2.7. Cytuna UCAC â'r egwyddor a'r bwriad y tu ôl i bob un o'r argymhellion hyn, er ein bod wedi pwyso am gynydd o 5% yn hytrach na 2.4%.
- 2.8. Mae UCAC yn *hynod* siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod i gymryd cyfrifoldeb dros y materion hyn. Nid yw'r Gweinidog wedi ymhelaethu o gwbl ar y sail dros beidio â chymryd cyfrifoldeb.
- 2.9. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth na dadleuon cyfreithiol, nid ydym yn derbyn na all Gweinidogion Cymru ddyfarnu a gweithredu mewn perthynas â'r agweddau hyn.
- 2.10. Byddai gwneud hynny wedi bod yn gam gwirioneddol tuag at greu cyfundrefn cyflog cyson, teg a strwythuredig i Gymru gyfan – sef un o brif amcanion y broses hon. Yn ogystal, mi fyddai wedi osgoi'r angen am drafodaethau hirfaith ar lefel ranbarthol, awdurdod lleol ac ysgol sy'n dargyfeirio sylw ac egni oddi ar faterion addysgol eraill.
- 2.11. Nodwn fod Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog (22 Gorffennaf 2019) yn ymrwymo i gynnwys y materion hyn yng nghylchoedd gwaith y Corff yn y dyfodol. Pwyswn ar y Gweinidog i wneud hynny'n ddi-oed, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu ar y materion hyn yn hytrach na'u gadael i fympwy'r cyflogwyr.

A7 Argymhellwn y dylai'r graddfeydd cyflog yn Atodiad B ddod yn statudol a chael eu cyhoeddi yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol i Gymru. Yn ddelfrydol, dylai'r argymhelliad hwn gael ei weithredu ar gyfer 2019, ond os na ellir gwneud hyn, dylai fod ymrwymiad i wneud hynny o 2020 ymlaen

Ymateb y Gweinidog: Ni ellir rhoi Argymhelliad A7 ar waith yn ymarferol fel yr argymhellwyd. Nid yw'n ymarferol cyflwyno graddfeydd statudol ar gyfer 2019 ond caiff hyn ei ystyried yng nghylchoedd gwaith y dyfodol.

Barn UCAC:

- 2.12. Rydym yn cydnabod parodrwydd y Gweinidog i ystyried y mater hwn mewn cylchoedd gwaith y dyfodol.
- 2.13. Fodd bynnag, rhaid inni fynegi siom o'r mwyaf nad oes parodrwydd i weithredu ar yr argymhelliad hollbwysig hwn ar gyfer blwyddyn ysgol 2019-20. Unwaith eto, ni chynhigir esboniad na chyfiawnhad dros ddweud 'na ellir rhoi Argymhelliad A7 ar waith yn ymarferol fel yr argymhellwyd'.

- 2.14. Byddai gweithredu'r argymhelliad hwn eleni wedi bod yn ddatganiad cadarn ar ran Llywodraeth Cymru o'r penderfyniad i greu cyfundrefn gyflog addas i Gymru, wedi'i seilio ar egwyddorion gwahanol i'r gyfundrefn flaenorol o San Steffan.
- 2.15. I UCAC, roedd ail-adfer y graddfeydd cyflog ar sail statudol, gyda phwyntiau cyflog penodol, yn gwbl ganolog i gyflawni nifer o'r egwyddorion a osododd y Gweinidog ar y Corff ar gyfer y broses:
- Yr angen i sicrhau trefniadau cyflog cyson a rhesymol sy'n annog proffesiynoldeb athrawon ynghyd â chefnogi prosesau i recriwtio a chadw digon o athrawon ac arweinwyr o ansawdd digonol
 - Pwysigrwydd hybu dulliau o symleiddio'r system gyflogau; a darparu graddfeydd cyflog a lwfans safonedig a gymhwysir i bob athro ac arweinydd ysgol yng Nghymru;
 - Yr angen am eglurder ar draws system cyflogau athrawon
- 2.16. Fel y noda Adroddiad y Corff, roedd cytundeb ymhlith ymgynghoreion o bwysigrwydd cymryd y cam hwn. Nodwyd y 'byddai'n well gan [Lywodraeth Cymru], yn ddelfrydol, i bwyntiau graddfa gael eu hailgyflwyno i ddarparu cyfraddau cenedlaethol i bob athro' gan ei bod 'o'r farn bod pwyntiau clir fel hyn yn llawer symlach i'w gweinyddu, yn darparu gwell tryloywder ar draws y proffesiwn ac yn dileu'r posibilrwydd o anghydfod a'r baich gweinyddol uwch sy'n gysylltiedig â hynny'. Cytunwn â'r dadansoddiad hwnnw – felly pam ddim gweithredu?
- 2.17. Rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Argymhellion y Corff:

A8 Argymhellwn adolygiad sylfaenol o gyflog ac amodau gwasanaeth athrawon ac arweinwyr yng Nghymru i ategu'r agenda diwygio addysg. Ein hargymhellion A1-A7 yw'r camau cychwynnol yn y broses hon

Ymateb y Gweinidog:

Rwy'n cynnig derbyn Argymhelliad **A8** am fod hwn yn rhan o'r broses newydd o ran cyflogau rydym wedi'i rhoi ar waith yng Nghymru:

- y bydd cylchoedd gwaith IWPRB yn y dyfodol yn ystyried y gofyniad am adolygiad sylfaenol o gyflog ac amodau gwasanaeth athrawon ac arweinwyr i ategu'r agenda diwygio addysg.

Barn UCAC:

2.18. Mae UCAC yn barod iawn i gyfrannu'n llawn at Argymhelliad A8.

3. Sylwadau pellach y Corff

Amseriad y cylch cyflogau blynyddol: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried yr effaith ar ysgolion wrth gynllunio'r amserlenni ar gyfer cylchoedd cyflog blynyddol.

3.1. Mae UCAC yn cytuno'n llwyr â chais a dadleuon y Corff yn hyn o beth. Mae ysgolion a chyrrff llywodraethol yn y sefyllfa gwbl hurt ac afresymol ble maent yn gorfod gwneud penderfyniadau cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol heb wybod beth fydd costau cyflogau athrawon yn ystod y flwyddyn.

Hysbysu athrawon am ddyfarniadau cyflog: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithio gydag WLGA a'r holl awdurdodau sy'n cyflogi i sicrhau cydymffurfiaeth ag Adran 3 o'r STPCD, a hysbysu athrawon am eu dyfarniad cyflog unigol, a'r sail ar gyfer y dyfarniad, cyn pen mis ar ôl gwneud y penderfyniad.

3.2. Mae UCAC yn cytuno gyda hyn er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder i bob athro yng Nghymru. Yn y gorffennol, mae athrawon wedi dioddef cyfnod o ansicrwydd o ran aros am gadarnhad o ddyfarniad ac oblygiadau unrhyw newid yn eu cyflog.

Dyfarniadau aml-flwyddyn: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried cylchoedd gwaith ar ein cyfer sy'n rhychwantu mwy na blwyddyn, yn unol â dyraniadau'r Adolygiad o Wariant, fel y gellir blaengynllunio cyllidebau ysgol yn well.

3.3. Mae UCAC yn cytuno'n gryf iawn â'r cais hwn. Mae wir angen darganfod ffyrdd i sicrhau bod modd i ysgolion gynllunio'n ariannol mewn modd mwy strategol – rhywbeth sy'n gwbl amhosib ar hyn o bryd

gyda (1) cyllidebau blynyddol (2) gwybodaeth am y cyllidebau hynny'n cyrraedd mor hwyr yn y dydd (3) blwyddyn ariannol nad yw'n cyd-redeg gyda'r flwyddyn ysgol/flwyddyn gyflog.

Polisiau cyflog: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu un model polisi cyflog yr argymhellir y dylai pob ysgol yng Nghymru ei fabwysiadu a'i gyhoeddi.

3.4. Cytunwn yn llwyr â'r cais hwn. Mae llawer o egni ac amser yn cael ei wastraffu'n dyblygu trafodaethau ar bob lefel o'r system. Yn waeth na hynny, gall y trafodaethau hynny arwain at fwy o amrywiaeth ac anghysondeb o un awdurdod i'r llall ac yn wir o un ysgol i'r llall.

3.5. Credwn y dylai unrhyw drefniadaeth sicrhau bod proses raeadr glir i'r polisi sy'n rhoi pwyslais ar yr ysgol/awdurdod fel cyflogwr.

Ystod yr ymgynghoreion ar yr adolygiad cyflogau: Ar gyfer cylchoedd gwaith yn y dyfodol, gofynnwn am drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch sut i ddenu safbwyntiau cynrychiolwyr cyrff llywodraethu a sefydliadau eraill.

3.6. Cytunwn y gallai fod yn fuddiol ehangu ystod y safbwyntiau ar gyfer cylchoedd gwaith y dyfodol i gynnwys sefydliadau eraill sy'n uniongyrchol berthnasol i fyd addysg Cymru.

3.7. Nodwn fod absenoldeb corff cenedlaethol sy'n cynrychioli cyrff llywodraethu yn rhwystr i weithredu ar y pwynt hwn. Nid ydym o'r farn y byddai'n ymarferol, nac yn fanteisiol, i wahodd cyrff llywodraethu unigol i ymateb.

Cwricwlwm: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth ofalus i effaith cyflwyno'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022, yng nghyd-destun y sefyllfa bresennol o ran recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr athrawon mewn ysgolion.

3.8. Cytunwn â'r alwad hon. Gall bod effeithiau niferus i'r newidiadau cwricwlaidd – bwriadol ac anfwriadol – a'r rheiny'n rhai sy'n dylanwadu nid yn unig ar recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr, ond yn ogystal ar eu cyflogau a'u hamodau gwaith (e.e. strwythurau staffio, cyfrifoldebau ychwanegol, amser digyswllt).

3.9. Mae'n bosib y gallai rhoi ystyriaeth gynnar a manwl i'r materion hyn nid yn unig osgoi llu o broblemau, ond mi allai hyd yn oed arwain at newidiadau fyddai'n hwyluso cyflwyniad y cwricwlwm.

3.10. Credwn y byddai'n werth rhoi ystyriaeth benodol i'r newidiadau sylweddol i'r drefn Anghenion Dysgu Ychwanegol o fis Medi 2020 yn yr un modd.

Data ac ymchwil: Gofynnwn am drafodaeth gynnar gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y ffordd orau o gyllido a chael mynediad i ddata amserol ac unrhyw ymchwil bellach.

3.11. Cytunwn â'r cais. Carai UCAC bwysleisio'r angen i rannu'r data a'r ymchwil gyda'r undebau a'r cymdeithasau.

Goblygiadau'r system cyflogau athrawon o ran cydraddoldeb: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithio gyda phob corff perthnasol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'u priod ddyletswyddau i fonitro ac adrodd ar gydraddoldebau yn unol â gofynion statudol.

3.12. Mae UCAC yn cytuno â'r cais. Gofynnwn am sicrhau canllawiau a phhecyn cymorth pwrpasol i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ar gyfer y gwaith.

4. Sylwadau penodol am y Ddogfen ddrafft

4.1. Rydym wedi cymharu Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2018 gyda'r Ddogfen cyfatebol ddrafft ar gyfer 2019. Yn ogystal, rydym wedi cymharu fersiynau Cymraeg a Saesneg Dogfen 2019. Yn sgil y gwaith hwnnw, dyma rai sylwadau a allai fod yn ddefnyddiol:

- Mae'r brawddegau canlynol yn absennol o'r Cyflwyniad i'r fersiwn Cymraeg:

The Document (Section 2) and the statutory guidance (Section 3) should be read together to provide a complete picture of pay and conditions for teachers in Wales.

The contents of the Document apply to teachers in Wales only.

- Yn 14.3b (tudalen 21) mae'n hyn sy'n cyfateb i 'blaenorol' ('has previously') yn absennol o'r fersiwn Saesneg
- Yn 19.2, mae'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at 'The Education (Induction Arrangements for School Teachers) (Wales) Regulations 2015'. Mae'r fersiwn Cymraeg yn cyfeirio at 'Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2012'. Hynny yw, mae'r dyddiad yn y fersiwn Cymraeg yn anghywir.
- Mae adrannau 50.4 a) b) ac c) yn absennol o'r fersiwn Cymraeg
- Mae'r ddogfen Gymraeg yn defnyddio'r term 'ANGau' ar gyfer 'NQTs' – sy'n gyson â fersiynau blaenorol o'r ddogfen. Teimlwn fod y tebygrwydd gyda'r gair 'angau' ('death') yn un anffodus ac felly i'w osgoi. Yn hytrach, argymhellwn defnyddio **ANGiaid** neu – yn syml – **ANG** (sy'n gallu cynrychioli'r unigol a'r lluosog fel ei gilydd).



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

 facebook.com/AthrawonCymru  twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru